ColegauCymru
CollegesWales

Yn codi proffil addysg bellach
Raising the profile of further education

newyddion Cymraeg ColegauCymru #199
12 Hydref 2015

Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi Cysylltwch.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.

Do please let us know if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

Datblygiadau Strategol

Disgwyliadau uchel ar gyfer y corff rheoleiddio annibynnol newydd

Wrth groesawu lansiad Cymwysterau Cymru, rheoleiddiwr annibynnol newydd ar gymwysterau Cymru, dywedodd ColegauCymru bod ganddo ddisgwyliadau uchel, a'i fod yn edrych ymlaen at weld y rheoleiddiwr yn codi statws cymwysterau galwedigaethol.
Mwy>>>

Angen cydweithio strategol ar addysg alwedigaethol ddwyieithog: y neges o Wlad y Basg

Mae Sgiliaith a CholegauCymru, dau gorff cenedlaethol sy'n cynrychioli'r sector addysg bellach yng Nghymru, yn galw am gydweithio strategol ar addysg alwedigaethol ddwyieithog, gan gynnwys cyrff addysg a hyfforddiant ôl-16, cyflogwyr, a'r llywodraeth.
Mwy>>>

Y Prif Weinidog yn agor campws canol dinas Coleg Caerdydd a'r Fro

Mae Prif Weinidog Cymru Carwyn Jones a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau Huw Lewis wedi agor Campws Canol y Ddinas newydd gwerth £45m Coleg Caerdydd a'r Fro yng nghalon y brifddinas yn swyddogol.
Mwy>>>

Lansio rhaglen AU+ 2015/16 gyda chymorth Rhwydwaith Seren

Mae Coleg Gŵyr Abertawe, sy'n gweithredu fel "hwb" Consortiwm AU+ Abertawe gan weithio gyda chweched dosbarth saith ysgol yr ardal - mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caergrawnt - wedi lansio rhaglen AU+ 2015/16. Ar gyfer y flwyddyn academaidd hon, mae consortiwm AU+ Abertawe yn cael ei gefnogi gan fuddsoddiad o Raglen Rhwydwaith Seren Llywodraeth Cymru.
Mwy>>>

Sêl frenhinol o gymeradwyaeth ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith Grŵp o Golegau NPTC

Grŵp o Golegau NPTC yw'r darparwr dysgu a benodwyd i ddarparu cymwysterau cydnabyddedig a phrofiad gwaith mewn swydd fel rhan o raglen brentisiaeth hyfforddiant chwaraeon Undeb Rygbi Cymru (URC), 'Hyfforddwr Craidd', a grëwyd gan Sefydliad Brenhinol y Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry.
Mwy>>>

Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed: cynhadledd aml-asiantaethol

Bu arbenigwyr diogelu cenedlaethol ymhlith siaradwyr cynhadledd ar ddiogelu a gynhaliwyd yng Ngholeg Sir Benfro ar gyfer ystod o asiantaethau gan gynnwys gofal cymdeithasol, addysg, yr heddlu, iechyd, y gwasanaeth prawf a'r sector gwirfoddol.
Trefnwyd y gynhadledd ar y cyd gan Gyngor Sir Penfro, Coleg Sir Benfro a Sylfaen Martin Roberts.
Mwy>>>

Coleg yn ennill statws 'Aelod Cyswllt' gan y Gymdeithas Frenhinol

Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi ennill statws ‘Aelod Cyswllt’ gan y Gymdeithas Frenhinol, academi wyddoniaeth genedlaethol y DU fel rhan o Gynllun Ysgolion a Cholegau Cyswllt y Gymdeithas Frenhinol.
Ei nod yw hyrwyddo rhagoriaeth ym maes addysgu gwyddoniaeth a mathemateg.
Mwy>>>

Dilyniant Myfyrwyr

Swydd ac ysgoloriaeth i astudio HIV yn Efrog Newydd

Mae Samantha Jones, 19, a gwblhaodd Diploma Estynedig mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 yng Ngrŵp Llandrillo Menai, wedi sicrhau swydd fel ymchwilydd gyda’r Biodiversity Group (BDG) yn Efrog Newydd, yn ogystal ag ennill ysgoloriaeth i astudio ym Mhrifysgol Rochester yn y ddinas.
Mwy>>>

Arddangosfa yn Efrog Newydd i gyn-fyfyriwr o’r ysgol gelf

Mae cyn-fyfyriwr o ysgol gelf Coleg Sir Gâr yn arddangos ei waith mewn arddangosfa dramor yn Oriel Agora Efrog Newydd.
Mwy>>>

Busnes Darlunio Myfyrwraig Safon Uwch

Mae India Hackett, 17, myfyrwraig Safon Uwch o Grŵp Llandrillo Menai wedi dechrau ei busnes darlunio ei hun, ac wedi derbyn pum comisiwn yn barod ar ôl arddangos ei gwaith mewn oriel leol.
Mae hi nawr yn trafod sut i gael grant menter gyda Hyrwyddwr Menter Coleg Llandrillo.
Mwy>>>

Cwrs Cyfrifeg Siartredig wedi ei ariannu'n llawn i ddysgwraig alwedigaethol

Mae dysgwraig uchelgeisiol sydd wedi cwblhau cyfres o gyrsiau galwedigaethol mewn cyfrifeg yng Ngholeg y Cymoedd wedi ennill lle ar gwrs ACCA tair blynedd wedi ei dalu'n llawn i ddod yn gyfrifydd.
Mwy>>>

Llwyddiant Staff a Dysgwyr

Gwobr entrepreneur

Mae cyn-fyfyriwr Safon Uwch Grŵp o Golegau NPTC, Caryl Thomas, sydd nawr yn aelod Centerprise, wedi ennill ei hail wobr yng Ngwobrau Busnes De Cymru - gan gael ei henwi y tro hwn yn Entrepreneur Benywaidd y Flwyddyn 2015.
Mwy>>>

Prentis Ffasiwn a Thecstilau yn Ennill Gwobr Fusnes

Bu i brentis yng Ngholeg Sir Gâr, sy'n gweithio fel cynorthwy-ydd stiwdio ddylunio ar gyfer Anderson Apparel Cyf, ennill gwobr prentis rhagorol yng gwobrau Busnes Powys.
Mwy>>>

Cyflwyno gwobrau brenhinol i fyfyrwyr

Mae dau fyfyriwr 16 oed o Goleg Sir Gâr yn paratoi at dderbyn gwobrau Cyflawnwyr Ifanc ym Mhalas Buckingham i gydnabod eu cyflawniadau ardderchog gydag Ambiwlans Sant Ioan a'u gweithredoedd achub bywyd yn ddiweddar.
Mwy>>>

Cydnabod ymroddiad eithriadol hyfforddwr

Mae'r asesydd peirianneg o Coleg y Cymoedd, Steve Manning, ar restr fer Gwobrau Prentisiaethau Cymru 2015, sy'n cael ei gynnal ar 29 Hydref.

Ymysg ei gyflawniadau, ef gychwynnodd system “bydi”, lle mae prentisiad y flwyddyn olaf yn mentora rhai’r flwyddyn gyntaf.
Mwy>>>

Dysgwyr yn arwain y ffordd ar fynediad rheilffordd i bobl anabl yn ennill gwobr i bartneriaeth rheilffyrdd

Yn seremoni wobrwyo y Gymdeithas ar gyfer Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol (ACoRP), enillodd Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian (CRP) y wobr 'Teithwyr yn Cyfri' ar gyfer ffilm arloesol ar unigolion ag anableddau dysgu yn defnyddio gwasanaethau rheilffyrdd.
Mae'n cynnwys myfyrwyr Mynediad Galwedigaethol o Goleg Ceredigion a Choleg Derwen, Croesoswallt.
Mwy>>>

AS Islwyn yn helpu dathlu llwyddiant gŵyl gelf myfyrwyr yng Ngwlad Pwyl

Cynhaliwyd dathliad gyda gwestai arbennig, AS Islwyn Chris Evans, yr wythnos diwethaf ar gyfer myfyrwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS) o Gampws Crosskeys Coleg Gwent i ddathlu eu llwyddiannau mewn prosiect cyfnewid diwylliannol dwy flynedd a ddaeth i ben gyda Gŵyl Gelf Ryngwladol yng Ngwlad Pwyl.
Mwy>>>

Ffocws ar Chwaraeon

Coleg y Cymoedd yn ennill statws academi rygbi

Mae Coleg y Cymoedd wedi ennill statws Academi Achredig Categori 3 Rygbi Tri-ar-Ddeg gan Gynghrair Rygbi Cymru. Caiff darpar sêr Rygbi’r Gynghrair gyfle i sicrhau eu lle ar y rhaglen sy’n cyfuno hyfforddiant ag addysg amser llawn.
Mwy>>>

Lansio academi bêl-droed elit merched

Mae Dinas Abertawe wedi ymuno â Grŵp o Golegau NPTC i lansio academi bêl-droed elit merched wedi ei leoli rhwng Safle Hyfforddi Landore Ground ac Academi Chwaraeon y Coleg yn Llandarsi.
Mwy>>>

Cyfleoedd chwaraeon newydd yn y Gymraeg i fyfyrwyr

Roedd aelodau o'r gynulleidfa ar raglen deledu "Jonathan" yn dilyn gem Cymru v Fiji yn cynnwys myfyrwyr o Goleg Ceredigion, a roddodd iddynt gyfle i siarad Cymraeg y tu allan i furiau'r dosbarth.
Roedd gwesteiwr y sioe deledu, Jonathan Davies, sy'n gyn-chwaraewr rygbi rhyngwladol Cymru, hefyd yn gyn fyfyriwr Coleg Ceredigion. Mwy>>>

Yn ogystal, cynhaliodd Coleg Ceredigion wyl chwaraeon ar gampws Aberteifi i hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg trwy weithgareddau hwyl, diolch i waith trefnu Gweithgor Ieuenctid Bro Teifi. Mwy>>>

Myfyrwyr gwybodus am ddiwydiant yn profi pwysigrwydd gwaith gwirfoddol

Mae datblygu sgiliau ar gyfer y gweithle yn hanfodol o ran galluogi dysgwyr i gystadlu gyda miloedd o fyfyrwyr eraill sy'n gadael colegau a phrifysgolion.
Mae tîm gwyddor chwaraeon Coleg Sir Gâr yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr ennill profiad yn gweithio mewn sefydliadau sy'n cynnwys Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe.
Ac wythnos diwethaf, cyflwynwyd tystysgrifau Gwirfoddolwyr y Mileniwm i fyfyrwyr chwaraeon am gwblhau lleoliadiau gwaith a gwaith gwirfoddol dan raglen a achredir gan Chwaraeon Cymru.
Mwy>>>

Rygbi rhyngwladol yn Academi Chwaraeon Llandarsi

Mae Grŵp o Golegau NPTC wedi bod yn cynal sgwad rygbi teithiol o Goleg Wairoa, Seland Newydd.
Mwy>>>

Dysgwyr yn gwleidydda

Myfyrwyr yn dadlau gyda Gerald Jones AS

Cafodd dros 75 o fyfyrwyr y cyfle i gymryd rhan mewn dadl gyda Gerald Jones, Aelod Seneddol dros Ferthyr Tudful a Rhymni, fel rhan o ddigwyddiad 'Pawb a'i Farm' yn y Coleg Merthyr Tudful, gan ganolbwyntio ar y refferendwm 2017 yr Undeb Ewropeaidd.
Mwy>>>

Gweithdai drama ar hunaniaeth Ewropeaidd i fyfyrwyr safon uwch

Mae prosiect cydweithredu artistig yn cynnwys chwe gwlad Ewropeaidd a Volcano UK - cwmni theatr wedi ei leoli yng Nghymru - wedi cynnal nifer o weithdai ar hunaniaeth Ewropeaidd gyda myfyrwyr safon uwch drama o Grŵp o Golegau NPTC. Mwy>>>

Cyfleoedd Dysgu

Gŵyl gemau fideo fwyaf Prydain: pen taith myfyrwyr TG

Mae myfyrwyr TG Coleg Ceredigion wedi ymweld a digwyddiad allweddol y diwydiant gemau fideo, yr arddangosfa EGX blynyddol yn yr NEC ym Mirmingham - digwyddiad gemau fideo mwyaf y DU.
Mwy>>>

Prifysgol yn galw

Derbyniodd dwsin o fyfyrwyr uchelgeisiol o Grŵp o Golegau NPTC flas ar fywyd prifysgol yn ystod yr haf fel rhan o Raglen Ymestyn yn Ehangach De Orllewin Cymru.
Mae'r cynllun yn helpu i gyflwyno myfyrwyr o ystod o feysydd a chefndiroedd i Addysg Uwch a hefyd yn gweithio gyda grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU.
Mwy>>>

Entrepreneuriaid yn siarad busnes

Mae entrepreneuriaid lleol wedi bod yn trafod sut i sefydlu busnes gyda myfyrwyr busnes.
Mwy>>>

Dysgwr yn arwain seremoni wobrwyo

Cynhaliodd Coleg y Cymoedd ei seremoni wobrwyo flynyddol yn Sinema Showcase gyda dysgwr wrth y llyw - James Owen, sy'n astudio cwrs celfyddyd perfformio.
Disgleiriodd James fel arweinydd y noson, gan gyflwyno'n ddwyieithog mewn modd proffesiynol iawn, a chan weld 50 o gyn-ddysgwyr y coleg yn cael eu gwobrwyo yng nghwmni Michaela Breeze MBE.
Mwy>>>

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB